
**Rhif 4:**

## Rhif y Cais / Application Number : C14/0618/34/LL

Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.
Location Plan for identification purposes only. Not to scale.



Cais Rhif: C14/0618/34/LL
Dyddiad Cofrestru: 26/06/2014
Math y Cais*:* Llawn - Cynllunio
Cymuned*:* Clynnog
Ward: Clynnog

Bwriad: CAIS LLAWN I GODI TRYDYDD TYRBIN GWYNT 50KW AR DWR 24.6M GYDA CHYFANSWM UCHDER O 34.2M I FRIG Y LLAFN
Lleoliad: DERWIN FAWR, GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD LL51 9LZ

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae'r cais yn ymwneud gyda chodi trydydd tyrbin gwynt 50 kw ar dwr 24.6m o uchder gyda chyfanswm uchder o 34.2m at ei frig (gan gynnwys y llafnau). Oherwydd natur y dirwedd mae hwn yr un faint a'r tyrbin cyntaf a adeiladwyd ond 0.2m yn is na'r un diwethaf i'w godi. Golygai hyn y gwelir y tri thyrbin yr un faint o'r rhan fwyaf o welfannau. Fe nodir y bydd y tyrbin yr un lliw a'r ddau dyrbin arall. Dangosir caban offer bychan wrth droed y tyrbin a byddai hwnnw wedi ei baentio'n wyrdd.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli gerllaw llwybr cyhoeddus ac o fewn 290m i eiddo preswyl Derwin Fawr, mae'r tŷ agosaf wedyn oddeutu 560m i ffwrdd a thai gwasgaredig ymhellach i ffwrdd. Mae'n ardal wledig amaethyddol ac mae peilonau trydan 50m o uchder oddeutu 120m o safle'r tyrbin ac mae'r rhain yn amlwg yn y dirwedd (yn rhedeg o'r gogledd i'r de).

1.3 Gerllaw mae ffordd Dosbarth 3, Lôn Eifion a Chefnffordd yr A487. Mae graddfa amlygrwydd y safle o'r mannau hyn yn amrywio oherwydd topograffi lleol a nodweddion yn y dirwedd yn cynnwys y peilonau. Mae nifer o lwybrau cyhoeddus o gwmpas y safle ac yn arwain ar hyd tir uwch yng nghyffiniau'r safle.

1.4 Mae Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei leoli oddeutu 800m i'r dwyrain tu draw i'r A487. Nid oes dynodiad tir arall cyfagos ac mae'r AHNE dros 3km i ffwrdd.

1.5 Cyflwynwyd yr wybodaeth isod gyda'r cais :

- Datganiad Dyluniad a Mynediad (yn cynnwys Asesiad Tirlun)
- Asesiad Sŵn Tyrbin Gwynt
- Adroddiad Perfformiad Acwstig y Tyrbin

1.6 Yn unol â Pholisi A1 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd mae'r bwriad wedi cael ei sgrinio ar gyfer Asesiad Effaith Amgylcheddol dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999 (fel y'i diwygiwyd). Wedi asesu effaith debygol y cynnig am dyrbin 34.2m gan ddefnyddio'r meini prawf perthnasol yng ngholofn 2 a 3 ynghyd a chanllawiau'r Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 11/99 ystyrir bod effaith y datblygiad ar yr amgylchedd yn annigonol i gyfiawnhau cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'r cais.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI STRATEGOL 9 - YNNI
Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI B8 - ARDALOEDD O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) LLŶN A MÔN
Gwarchod, cynnal a gwella cymeriad yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle yn unol â gofynion statudol Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

POLISI B14 - GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri drwy wahardd cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi eu lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI C26 - DATBLYGIADAU MELINAU GWYNT
Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar safleoedd o fewn AHNE Llŷn. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melin wynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

Canllaw Cynllunio Atodol : Ynni Gwynt ar y Tir (Mehefin 2014)
Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd : Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth 2014)

**2.3 Polisïau Cenedlaethol:**
Polisi Cynllunio Cymru (Gorffennaf, 2014)

Nodyn Cynllunio Technegol (TAN) 8 Ynni Adnewyddol

NCT (TAN) 11 – Sŵn

Nodyn Cyfarwyddyd Gwybodaeth LANDMAP, Cyngor Cefn Gwlad Cymru Rhif 3 - Using Landmap for visual assessment of onshore wind turbines (Mehefin 2010)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C12/0378/34/LL - Cais llawn i godi ail dyrbin gwynt 50kw ar dwr 24.8 medr, cyfanswm uchder 34.4 medr o frig y llafn - Caniatawyd 09/07/12

3.2 C11/0888/34/LL - caniatáu ail-leoli'r tyrbin gwynt a ganiatawyd eisoes – Caniatawyd 15/12/11

3.3 C11/0495/34/LL - un tyrbin gwynt wedi ei ganiatáu gydag amodau – Caniatawyd 16/09/11

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| BBC Spectrum Planning | Heb eu derbyn |
| Cyngor Cymuned Clynnog | Gwrthwynebu ar sail bod dau dyrbin eisoes ar y safle |
| Cyngor Cymuned Dolbenmaen | Heb eu derbyn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwrthwynebu<br>Mae diffyg gwybodaeth am ystlumod ac mae angen am arolygon perthnasol. Os na ddarperir yr wybodaeth berthnasol a bod yr ACLl am barhau i roi caniatad fe fyddai angen amod yn mynnu mesurau lliniaru ar ffurf cynllun "cwtogiad" (curtailment)<br><br>Ni ystyrir y byddai'r tyrbin yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar osodiad Tirweddau a'u Gwarchodir megis yr AHNE a'r Parc Cenedlaethol<br><br>Ni fydd y datlygiad yn niweidiol i unrhyw safleoedd a'u gwarchodir |
| Dŵr Cymru | Heb eu derbyn |
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd | Dim gwrthwynebiad |
| JRC ar ran Scottish Power | Dim gwrthwynebiad |
| Llywodraeth Cymru Trafnidiaeth | Dim sylwadau i'w cynnig |
| National Grid | Heb eu derbyn |
| NATS | Dim gwrthwynebiad |
| OFCOM | Ni adnabyddir unrhyw effeithiau niweidiol |
| Parc Cenedlaethol Eryri | Gwrthwynebu ar sail yr effeithiau gweledol a thirweddol cronnol ar ddwy dirwedd ddynoedig |
| Uned AHNE | Sylwadau<br>Er bod y safle gryn bellter o ffin yr AHNE mae pryder yn yr achos hwn am effaith cronnol nifer o dyrbinau a pheilonau yn yr ardal hon |

| | |
|---|---|
| Uned Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad<br>Angen amodau i warchod trigolion lleol rhag effaith sŵn afresymol yn codi o’r tyrbeini gwynt yn y dyfodol |
| Uned Llwybrau | Sylwadau<br>Mae angen amddiffyn Llwybr Cyhoeddus Rhif 45 Clynnog Fawr yn ystod ac ar ddiwedd y datblygiad |
| Uned Trafnidiaeth | Dim gwrthwynebiad |
| Crown Estate | Dim sylwadau i’w cynnig |
| Defence Infrastructure Organisation | Dim gwrthwynebiad |
| Arquiva (ar ran BBC ac ITV) | Dim gwrthwynebiad |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gwrthwynebiadau ar sail:<br>• Bod hwn yn fenter fasnachol ac o raddfa rhy fawr i fod yn gynllun arallgyfeirio amaethyddol<br>• Ni ymgynghorwyd â’r cyhoedd ymlaen llaw yn unol â’r CDA Ynni Gwynt ar y Tir<br>• Fe fyddai’n niweidiol i’r Parc Cenedlaethol<br>• Effaith cronnol sylweddol<br>• Nid yw’r ffaith bod strwythurau eraill eisoes yn yr ardal yn cyfiawnhau niwed pellach i’r dirwedd leol |

**5. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae TAN 8 yn ystyried cyfraniad melinau gwynt ar gyfer cynhyrchu trydan fel gofyn cenedlaethol ac yn un o brif nodau polisi ynni’r Cynulliad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o’r farn mai ynni gwynt sy’n cynnig y potensial mwyaf, yn y tymor byr, i gynyddu’r trydan a grëir o ffynonellau adweinyddol.

5.2 Nid oes unrhyw Ardaloedd Chwilio Strategol wedi’u hadnabod o fewn Gwynedd ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fawr ac felly mae’n rhaid asesu unrhyw ddatblygiad ar sail polisïau cynllun datblygu lleol.

5.3 Mae TAN 8 hefyd yn nodi bod angen sicrhau bod datblygiadau ddim yn effeithio ar AHNE a Pharciau Cenedlaethol, fodd bynnag mae o hefyd yn nodi y gall cynlluniau ar raddfa fechan neu ar raddfa ddomestig fod yn dderbyniol yn amodol ar holl ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.

5.4 Mae Polisi Strategol 9 CDUG yn ymrwymo’r Cyngor i gefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy na fyddai’n creu niwed arwyddocaol i’r amgylchedd na chymunedau lleol.

**Mwynderau Gweledol a’r Dirwedd**

5.5 Mae Polisi C26 o CDUG yn ymwneud gyda datblygiadau melinau gwynt. Yn unol gyda’r polisi hwn dim ond datblygiadau melin gwynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu

ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled y gellir cydymffurfio gyda'r holl feini prawf sy'n rhan o'r polisi.

5.6 Yn berthnasol i'r cais hwn mae'r meini prawf yn gofyn

1. na fydd effaith niweidiol sylweddol ar osodiad Parc Cenedlaethol Eryri nag AHNE Llŷn;
2. bod datblygiadau atodol yn cael eu dylunio mewn modd addas;
3. na fydd effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd neu nodweddion cadwraeth natur;
4. nad oes effaith niweidiol ar fwynderau megis sŵn neu lewyrch golau a chysgodion;
5. na fydd ymyrraeth electromagnetig sylweddol;
6. bod darpariaeth ddigonol ar gyfer dadgomisiynu, adfer tir ac ati; a
7. na fydd niwed sylweddol i ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol.

5.7 Yn yr achos hwn, ac yng nghyd-destun Maen Prawf 1 Polisi C26, ni ystyrir y byddai'r datblygiad yn niweidiol i'r AHNE oherwydd ei bellter o'r ardal honno ac felly bod y cais yn cydymffurfio gyda Pholisi B8 y CDU. Ni ystyrir ychwaith y buasai niwed sylweddol yn mynd i fod ar osodiad y Parc Cenedlaethol er gwaethaf gwrthwynebiad gan Awdurdod y Parc. Mae sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y byddai'r tyrbin, oherwydd ei leoliad a'i agosatrwydd at ddau dyrbin arall yn creu clwstwr bychan o dyrbinau yn y dirwedd ac ni fyddent yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar osodiad y Parc Cenedlaethol. Fe gredir, o edrych ar y dirwedd yn ei chyfanrwydd, bod yr asesiad hwn yn briodol, yn enwedig o ystyried y cyd-destun o bresenoldeb agos y peilonau gerllaw. Mae gofyn asesu beth fyddai'r effaith ychwanegol a fyddai'n deillio o'r bwriad sy'n destun i'r cais hwn a ni chredir y byddai'r effaith o ganlyniad gosod un tyrbin gwynt ychwanegol yn achosi niwed arwyddocaol i osodiad Parc Cenedlaethol Eryri.

5.8 Yn yr un modd, ni chredir fod y bwriad yn debygol o niweidio nodweddion a chymeriad arbennig y Parc Cenedlaethol na'r AHNE drwy ymwthio yn sylweddol yn weledol neu drwy leoli ansensitif ac anghydnaws o fewn y dirwedd, ac felly mae'r cais yn gydnaws gyda Pholisïau B8 a B14 y CDU. Mae hyn eto'n seiliedig ar y ffaith fod dylanwad gweledol y tyrbin yn eithaf cyfyngedig oherwydd ei leoliad ger y peilonau, tyrbinau presennol a datblygiadau eraill. Mae ffin y Parc Cenedlaethol yn gorwedd i'r dwyrain o'r safle a chaiff y tyrbin ei weld yng nghyd-destun yr A487(T), ffermydd a thai gwasgaredig a rhes peilonau'r Grid Cenedlaethol. Mae'r pellter o ffin yr AHNE yn golygu y byddai effaith un strwythur yn llai byth o'r ardal honno. Hefyd, am y rhesymau hyn, ni chredir y byddai trydydd tyrbin ar y safle hwn yn debygol o arwain at effaith cronnol annerbyniol ar yr ardaloedd dynodedig.

5.9 O safbwynt gweddill meini prawf Polisi C26, ni fydd datblygiadau atodol heblaw caban offer bychan ac nid oes gofyn am gompownd na storfa fawr felly byddai'r datblygiad yn cyd-fynd a Maen Prawf 2. O safbwynt meini prawf 3 & 4, nid oes dynodiadau natur gyfagos ac mae tai cyfagos o dros 500m i ffwrdd ac ni ystyrir eu bod yn debygol o ddioddef o lewyrch golau na chysgodion. Mae'r effeithiau sŵn yn dderbyniol gan Uned Gwarchod y Cyhoedd a gellir amodi lefelau sŵn er mwyn cadw rheolaeth ar y sefyllfa (gweler paragraff 5.13 isod). Gellir amodi dadgomisiynu ac adfer y tir i gwrdd â Maen Prawf 6 ac ni chredir fod unrhyw effaith andwyol ar ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol gan nad oes dynodiadau lleol ac felly bodlonir Maen Prawf 7.

5.10 Mae Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirwedd : Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri (Mawrth 2014) yn waith gan gwmni Gillespies ar ran Awdurdodau Lleol gogledd orllewin Cymru. Mae'r ddogfen yn asesu sensitifrwydd a chapasiti'r tirwedd i ymdopi gyda mathau penodol o ddatblygiadau. Yn ôl y gwaith sydd wedi ei wneud, mae safle'r cais yma wedi ei leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd G10 Canoldir Llŷn, ac ai'r gwaith ymlaen i ddatgan fod y capasati o fewn yr ardal yma (tu allan i'r AHNE) ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar lefel micro (h.y. tyrbinau unigol dan 20m o uchder) yn unig.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod yr asesiad yma hefyd yn amlygu fod sensitifrwydd yn amrywio yn lleol o fewn yr Ardal Cymeriad Tirwedd, ac y dylid ystyried tystiolaeth sydd wedi cael ei gyflwyno i gefnogi'r cais ynghyd ac asesiad swyddog achos o ymweld â'r safle cyn penderfynu os yw natur y safle penodol yn golygu y gellir ymdopi gyda datblygiad ar raddfa fwy na'r hyn a argymhellir yn yr adroddiad.

5.11 Yn yr achos yma, oherwydd natur a lleoliad y safle ger rhes o beilonau oddeutu 50m o uchder, dwy felin wynt presennol a chyda bryn yn gefndir iddo o sawl gwelfan, ni chredir y byddai effaith andwyol negyddol arwyddocaol ar fwynderau gweledol y dirwedd sy'n fwy na'r hyn sy'n bodoli'n barod. Am y rhesymau hyn fe gredir nad yw'r safle penodol hwn yn rhannu cymeriad nodweddiadol gweddill yr Ardal Cymeriad Tirlun a bod rhagor o gapasiti yn y lleoliad hwn na'r hyn a awgrymir gan waith Gillespies.

5.12 O ystyried yr uchod ni chredir fod y bwriad yn groes i Bolisïau C26, B8 na B14 o'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Sŵn, Taflu Cysgod a Mwynderau Preswyl**

5.13 Mae'r eiddo preswyl agosaf heblaw am eiddo'r ymgeisydd, yn fwy na 500m i ffwrdd o safle'r cais. Yn sgil sylwadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd ynghylch yr angen i asesu'r effeithiau sŵn cronnus o'r tri thyrbin, cyflwynwyd adroddiad sŵn priodol sy'n cydymffurfio gyda gofynion ETSU-R-97. Daw hwn i'r casgliad y byddai'r effeithiau sŵn ar eiddo "sensitif" o fewn y gofynion statudol yn ystod y dydd a'r nos. Daeth ymateb pellach gan Adran Gwarchod y Cyhoedd i'r adroddiad hwnnw ac maent yn cadarnhau ei fod wedi ei ymgymryd i'r safonau priodol a bod y canlyniadau'n dderbyniol ac felly nad oes gwrthwynebiad yn ymwneud gyda sŵn yn ddarostyngedig i amodau priodol. O ganlyniad, ni ragdybir y bydd unrhyw effaith sŵn annerbyniol yn deillio o'r cais a gellir amodi lefelau sŵn drwy amod perthnasol ar y caniatâd. Yn ychwanegol i hyn, ac oherwydd maint a phellter y tyrbin arfaethedig o'r tai agosaf, ni chredir y bydd unrhyw aflonyddwch oherwydd taflu cysgod.

5.14 Ar y sail hon ni ystyrir fod y bwriad yn groes i Bolisi B23 a B33 y CDU.

**Ecoleg a Bioamrywiaeth**

5.15 Nid yw'r tir wedi ei ddynodi gydag unrhyw werth bioamrywiaeth ac nid oes unrhyw wrthwynebiadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o safbwynt yr effaith ar safleoedd a'u diogelir.

5.16 Yn sgil materion sydd wedi codi ar safleoedd eraill mae CNC wedi newid eu cyngor safonol ynghylch ceisiadau o'r math hwn. Yn benodol, mae pryder bod rhai rhywogaethau o ystlumod yn defnyddio tiroedd agored ar gyfer hela yn hytrach na chadw at nodweddion llinellol megis gwrychoedd. Er mwyn dilyn yr egwyddor ragofalus maent erbyn hyn yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno rhagor o wybodaeth ar ffurf arolygon safle neu gytuno cynllun 'cwtogiad' (curtailment) a olygai cyfyngu ar weithrediad y tyrbin yn ystod cyfnodau pan fydd ystlumod yn weithredol. Yn absenoldeb unrhyw arolygon ystlumod, petai'r Cyngor am ganiatáu'r cais fe fydd angen rhoi amod mewn lle i sicrhau bod cynllun cwtogiad yn cael ei gytuno cyn gweithredu'r datblygiad. O weithredu'r uchod fe ystyrir y byddai'r datblygiad yn dderbyniol dan Bolisi B20 y CDU.

**Diogelwch Priffyrdd**

5.17 Nid yw'r Uned Trafnidiaeth nag Adran Briffyrdd Llywodraeth Cymru o'r farn y buasai datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar unrhyw ffordd. Mae'n debyg y bydd rhywfaint o draffig trwm yn ystod y cyfnod adeiladu ond yn dilyn hyn ni fyddai'r bwriad yn debygol o arwain at unrhyw ychwanegiad annerbyniol mewn traffig at neu o'r safle.

**Effaith Electromagnetig a systemau trosglwyddo**

5.18 Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad gan y mudiadau sydd wedi ymateb sy'n gwarchod buddiannau systemau trosglwyddo ac felly ni ystyrir fod unrhyw effaith andwyol ar y sustemau o'r fath yma a bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt maen prawf 5 o Bolisi C26 o'r CDU

**Materion Ychwanegol**

5.19 Er nad yn ystyriaeth cynllunio, petai'r datblygiad yn cael ei ganiatáu, mae'r ymgeisydd wedi cytuno cyfrannu £250 y flwyddyn at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru er mwyn cwrdd â gofynion Rhan 11 "Manteision Cymunedol a Chyfraniadau Datblygwyr" o'r CCA "Ynni Gwynt ar y Tir". Byddai'r fath gyfraniad yn cael ei reoli tu allan i'r drefn cynllunio.

**Ymgynghoriad Cyhoeddus**

5.20. Ystyrir bod y materion cynllunio perthnasol sydd wedi codi o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori wedi derbyn ystyriaeth lawn o fewn yr asesiad uchod

**6. Casgliadau:**

6.1 Oherwydd natur datblygiadau o'r math yma mae'n anodd iawn i'w integreiddio yn y dirwedd. Mae'n rhaid felly pwyso a mesur yn ofalus unrhyw effaith ar y dirwedd yn erbyn y nod lleol a chenedlaethol o hybu datblygiadau sy'n creu ynni adnewyddol.

6.2 Fe gredir bod y safle a ddewiswyd yn un sydd yn lleihau'r effaith weledol cymaint ag sy'n ymarferol gyda'r math hyn o ddatblygiad. Er mwyn lliniaru effaith y tyrbin ymhellach credir fod amod i sicrhau fod y tyrbin yr un lliw a'r tyrbeini eraill yn addas a pherthnasol a bydd hyn yn sicrhau ei fod yn 'ymdoddi' gyda'r peilonau a'r tyrbeini eraill yn y dirwedd.

6.3 Oherwydd pryder am natur gronnol y math yma o ddatblygiadau o fewn un ardal benodol credir hefyd ei fod yn addas a phriodol i roddi amod ar y caniatâd i ddechrau gwaith o fewn 2 flynedd. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu effaith cronnol yn well ac i allu sicrhau beth sy'n debygol o gael ei ddatblygu neu ddim o fewn cyfnod gymharol fyr (ond rhesymol).

6.4 Wedi ystyried yr holl bolisïau a materion cynllunio perthnasol ni chredir y byddai'r datblygiad yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar y tirlun yn gyffredinol, na'r Parc Cenedlaethol cyfagos yn benodol, ac yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol yn ymwneud ag ynni adnewyddol a pholisïau lleol yn ymwneud â'r tirlun, mwynderau ac ynni adnewyddol ni chredir fod y bwriad yn groes i'r polisïau perthnasol hyn

**7. Argymhelliad:**

**7.1** Caniatáu -

1. dechrau gwaith o fewn 2 flynedd
2. yn unol â'r cynlluniau
3. lliw i weddu gyda'r tyrbeini eraill
4. sŵn
5. llafnau i symud yn yr un cyfeiriad
6. dadgomisiynu
7. cyflwyno cynllun cwtogiad at ddibenion diogelu ystlumod
8. cysylltu gyda'r grid drwy roi gwifrau tan ddaear

4

**Rhif y Cais / Application Number : C14/0618/34/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**






Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey
gyda chaniatâd yr Ordnance Survey
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri
hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

This map is reproduced from Ordnance Survey material
with the permission of Ordnance Survey
on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2006

4

# LOCATION PLAN




Proposed wind turbine location grid reference:

**T2: SH 47194 46008** (E:247194 N:346008)

Rotor Diameter 19.2m = Application Site Area (total max 0.1ha)

Concrete Foundation plinth

Turbine Tower

Control/Electrical Cabinet

Underground Cable route back to farm buildings (Trench 25cm wide) and existing grid connection.

**Project:**
Installation of an Endurance E-3120 50kW wind Turbine with a 24.6m hub height tower, 19.2m rotor diameter, total height to blade tip 34.2m

**On the land to the west of:**
Derwyn Fawr
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9LZ

**Our Reference:**
Roberts/Derwyn-Fawr/WT3/DC


**Notes:**
Print : A3 Date: 5th March 2014
Scale: 1:2500

0m 25m 50m 75m 100m 125m

lessCO2 Limited
join the turbine revolution

Less-CO2 Ltd., G23 Genesis Centre, North Staffs Business Park, Innovation Way, S-o-T, ST6 4BF
T/ 01538 370131 M/ 07791 284460
www.less-co2.co.uk

# SITE LOCATION PLAN




less co2 Limited
join the turbine revolution

Rotor Diameter 19.2m = Application Site Area (total max 0.1ha)

Underground Cable route back to farm buildings (Trench 25cm wide) and grid connection.

Land ownership boundary

**Project:**
Installation of an Endurance E-3120 50kW wind turbines with a 24.6m hub height tower, 19.2m rotor diameter, total height to blade tip 34.2m

**On the land to the west of:**
Derwyn Fawr
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9LZ

**Our Reference:**
Roberts/Derwyn-Fawr/WT3/DC

**Notes:**
Print : A3 Date: 30th June 2014
Scale: 1:10,000

0m 100m 200m 300m 400m 500m


Less-CO2 Ltd., G23 Genesis Centre, North Staffs Business Park, Innovation Way, S-o-T, ST6 4BF
T/ 01538 370131 M/ 07791 284460
www.less-co2.co.uk

Proposed wind turbine location grid reference: **SH 47194 46008** (E:247194 N:346008)


**Existing turbine T1:** (E:247004 N:346055)
**Existing turbine T2:** (E:247092 N:346009)

# FOUNDATION DETAILS

## Plan view




## Elevation view




lessCO2 Limited
join the turbine revolution

**KEY:-**

Extent of area covered by blades when tracking into the wind

Base of Turbine Tower

Control Box Cabinet

Part of concrete foundation exposed above ground level

Part of concrete foundation buried below ground level

Ground Level

**Project:**
Installation of an Endurance E-3120 (50kW) wind turbine on a 24.6m hub height tower, 19.2m rotor diameter, total height to blade tip 34.2m

**On the land at:**
Derwyn Fawr
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9LZ.


**Our Reference:**
Roberts/Derwyn-Fawr/WT3/DC

**Notes:**
Print : A3 Date: 25th June 2014
Scale: 1:100

0m 1m 2m 3m 4m 5m

Less-CO2 Ltd., G23 Genesis Centre, North Staffs Business Park, Innovation Way, S-o-T, ST6 4BF
T/ 01538 370131 M/ 07791 284460
www.less-co2.co.uk

# TURBINE ELEVATIONS




lessCO2 Limited
join the turbine revolution

**Project:**
Installation of an Endurance E-3120 (50kW) wind turbine.
Hub height 24.6m, total height to blade tip 34.2m

**On the land at:**
Derwyn Fawr,
Garndolbenmaen
Gwynedd
LL51 9LZ

**Our Reference:**
Roberts/Derwyn-Fawr/WT3/DC

**Notes:**
Print : A3 Date: 25th June 2014
Scale: 1:200

0m 2m 4m 6m 8m 10m


Less-CO2 Ltd., G23 Genesis Centre, North Staffs Business Park, Innovation Way, S-o-T, ST6 4BF
T/ 01538 370131 M/ 07791 284460
www.less-co2.co.uk


F